**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**5/12/23**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Llinos Edwards, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Dewi Wyn Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**Ymddiheuriadau:** Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones

**2979 Sylwadau'r Cadeirydd:** Wrth estyn gair o groeso, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi bod yn brysur yn addurno'r pentref ar gyfer y Nadolig. Dywedodd fod gweithgarwch mawr wedi bod rhwng Openreach yn adeiladu'r seilwaith ar gyfer y ddarpariaeth ffeibr, a Dwr Cymru yn trwsio mewn ambell i safle. Roedd diwrnod olaf Tachwedd yn ddiwrnod hanesyddol gyda Meirion ac Eleri Pugh yn ymadael a'r Eagles, a thrigolion yn perchnogi'r dafarn. Dymunodd yn dda iawn i'r Fenter ac i deulu Madog.
**Cytunwyd** i ysgrifennu at Mr a Mrs Pugh i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth i'r ardal ar hyd y blynyddoedd.

**2980 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd 3 ymddiheuriad.

**2981 Datganiadau o fuddiant:** Derbyniwyd datganiadau o fuddiant mewn eitemau Cynllunio oddi wrth Huw Antur, Huw Roberts ac Alwyn M Roberts.

**2982 Cofnodion cyfarfod 7/11/23:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**2983 Materion y Clerc / Codi o'r Cofnodion:**

2964 Etholwyd Huw P Roberts yn Is-gadeirydd.

2968i Openreach: Derbyniwyd neges o ddiolch i'r Cynghorwyr am eu hymdrechion yn sicrhau digon o addewidion i wneud y cyflenwad ffeibr yn bosib.

2968ii TG yn y Neuadd: adroddodd Huw Antur bod disgwyl i'r gwaith cael ei wneud yn Ionawr. Gan y bydd yn cael ei ddefnyddio gan nifer o fudiadau, holwyd am system syml i logio mewn a defnyddio'r offer.

2969 Gwasanaeth bws T3: Derbyniwyd ymateb i lythyr y Cyngor a llythyr y Cynghorydd Alan Jones Evans. Cytunodd Alwyn E Jones i ymuno gyda'r Cynghorydd Alan Jones Evans mewn cyfarfod a drefnwyd gan Mabon ap Gwynfor yn Neuadd Llandderfel am 2.00pm ar 14/12/23.

2974 Arolwg llwybrau i'w torri: Cytunwyd i anfon at Gwmni Pum Plwy Penllyn i newid y Cytundeb: parhau i dorri Llwybr Cŵn a Llwybr Cei ac i ychwanegu torri'r gwrych ar Lwybr Cei un waith cyn diwedd yr haf. Nid oes angen torri Llwybr 17 (Llwybr Beudy Pantyceubren) na Llwybr y Ceunant.

2977 Cwpwrdd llyfrau y Neuadd: Ychwanegwyd at y Rhestr Asedau – yr amcan gwerth i'w ystyried eto. Adroddodd Beryl Hughes Griffiths iddi dderbyn awgrym y gallai llyfrau cael eu cyfrannu o'r newydd at y cwpwrdd, a'u bod ar gael i'r cyhoedd eu

benthyg. Mae cyfran o Lyfrgell Syr O M Edwards yn parhau yno. Mae'r agoriad gan Bwyllgor y Neuadd a chytunwyd i chwilio faint o ofod sydd ar gael ar hyn o bryd. Os bydd ardal treftadaeth yn yr Eglwys rhyw ddydd a ddaw, gellir ystyried symud y cwpwrdd i'r fan honno.

Ystyried trefnu Noson Goffi: eitem i Agenda Ionawr. Byddai Noson Hen Greiriau o dan ofal y Cynghorydd Alan Jones Evans yn ddeniadol dros ben.

**2984 Cyngor Gwynedd:** Adroddodd y Cynghorydd ei fod yn dal i aros ymateb parthed symud y twmpath ar y ffordd yn ardal Ty'n Ddôl. Mae wedi derbyn consyrn am bont Caer Gai i'r Ddôl ac fe fydd yn holi'r Swyddog Llwybrau am hyn. Mae Cefnffyrdd a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi clirio'r tyfiant wrth fynedfa Penffridd ac mae'r gwelediad wedi gwella. Mae'r ffens o wal yr Eglwys at y bont wedi'i chryfhau. Bu'n llythyru parthed gwasanaeth bws T3, yn arbennig ar sut y mae'n effeithio ar deithio yn ôl ac ymlaen i Goleg Meirion Dwyfor. Mae Mabon ap Gwynfor wedi anfon cwyn mewn yng nghylch y toriadau yn y cyflenwad dwr yn yr ardal hon. Diolchodd i Mabon ap Gwynfor am ei barodrwydd i weithio ar ein rhan bob amser.

Dymunodd Alwyn E Jones ddiolch i Gyngor Gwynedd am ysgubo'r ffordd yn y pentref yn ddiweddar. Mae Giang Ni yn mynd i sgubo'r pafin yn fuan yn y dyfodol.

**2985 Dwr Cymru:** Toriadau yn y cyflenwad dwr: mae Arwel Lloyd Jones wedi derbyn nifer o gwynion gan drigolion am amlder y toriadau yn y cyflenwad dwr. Mae sawl boiler wedi chwythu oherwydd codi'r pwysedd. Mae wedi cysylltu gyda Mabon ap Gwynfor. Yn anffodus, nid yw amlder y toriadau yn codi'r ardal yn uwch ar y rhestr ail-strwythuro. **Cytunwyd** i ofyn i Mabon ap Gwynfor a fyddai deiseb o unrhyw werth i gryfhau ei waith.

**2986 Is-bwyllgorau**

1. Grwp Datblygu: Nid yw'r grŵp wedi cyfarfod, ond cafwyd sgwrs ddiddorol gyda Cynan Jones o Brosiect "Perthyn" (Llywodraeth Cymru), sydd yn cynnig datrysiadau i Gyngor Gwynedd ar broblemau tai. Mae wedi cynnig creu cynllun ar ein rhan i'w gyflwyno i Gyngor Gwynedd i ofyn am gyllid er mwyn bwrw ymlaen yn lleol.
2. Mynwentydd: Mae'r is-bwyllgor angen cyfarfod i drafod nifer o bethau. Mynegwyd pryder am anifeiliaid gwyllt o gwmpas ardal y Fynwent. **Cytunwyd** i ofyn i Rhodri Prys Jones drafod y pryder gyda swyddog Parc Cenedlaethol Eryri; cytunwyd ymhellach i ofyn am arweiniad gan BRAMM.
3. Bioamrywiaeth: Mae ymholiadau wedi eu gwneud ar gyfer gwely o blanhigion o flaen y gofgolofn; mae'r drafodaeth yn parhau.
4. Nadolig: newidiwyd dyddiad ymweliad cymunedol Sion Corn rhag mynd ar draws cyngerdd Ysgol Godre'r Berwyn.
5. Asedau – derbyniwyd Cofnodion 7/11/23. **Gofynnwyd** i'r is-bwyllgor wneud trefniadau i ddiogelu'r peipiau mewn tywydd rhewllyd, a threfnu eu lagio. Addawodd Alwyn M Roberts chwilio wneud ymchwil ar offer i atal dwr rhag rhewi.
6. Cyllid: arweiniwyd y Cynghorwyr trwy Gofnodion Is-Bwyllgor Cyllid 4/12/23 a'r Drafft Gyllideb ar gyfer 2024-25. Derbyniwyd y Cofnodion ac argymhellwyd y Gyllideb a'r Praesept fel a ganlyn:

a. **Praesept: £16,000** sef **7.5%** yn uwch na llynedd oherwydd chwyddiant
b. Preswylfa Band D **£2.59** yn uwch na llynedd (sef £47.76 y flwyddyn)
c. Mae'r Gyllideb a argymhellir yn cynnwys defnyddio **£2,296** o'r balansau.

Cafwyd trafodaeth ar yr angen i Gynghorydd cael yr hawl i oruchwylio'r trafodion bancio, a chytunodd Dewi Wyn Jones i wneud hyn. Yn y gorffennol roedd 2 berson yn arwyddo sieciau, ond mae bancio ar lein yn golygu bod angen gosod mwy o fesurau mewn lle i ddiogelu buddiannau'r Cyngor.

**2987 Ystyried Materion Ariannol**

i. Derbyniwyd adroddiad 2020-21 a 2021-22 yr Archwilydd Allanol. Nodwyd y manion y tynnwyd sylw atynt, ond mae'r Adroddiadau hyn flynyddoedd yn hwyr yn cyrraedd y Cyngor.
ii. Derbyniwyd gwybodaeth am Adran 137 ar gyfer 2024-25: £10.81 yr etholwr
iii. Cymeradwywyd Derbyniadau ac Anfonebau'r mis

| | |
|---|---|
| Nwyddau glanhau | 44.77 |
| Clo i'r toiled | 42.98 |
| Cyflog Clerc Tachwedd | |
| CThEF | |
| Glanhau'r toiledau | |
| | |
| Torri gwair Mynwent yr Eglwys | |
| HG Web designs | 250.00 |
| Dwr Cymru | 343.90 |
| Cyfraniad y Neuadd | 750.00 |
| Costau Swyddfa 'r Clerc | 300.00 |

**2988 Menter Gymunedol:** Derbyniwyd adroddiad Huw Antur a oedd yn ymfalchïo fod Gwedd 1 o waith Menter Gymunedol Llanuwchllyn wedi ei chwblhau gyda phryniant yr Eagles. Mae'r bar wedi ei ymestyn ac mae rhan y siop wedi ei symud. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth. Yn ddiweddar trafodwyd dyfodol yr Eglwys gyda Swyddogion yr Eglwys yng Nghymru ac mae awydd i gyd-weithio trwy beidio a gosod cyfamodau caeth a thrwy caniatáu defnydd ategol i far yr Eagles. Mae croeso i bawb gynnig syniadau o bob math am ddefnydd o'r Eglwys ac fe fydd angen trafodaethau pellach gyda'r gymuned, yr Eglwys, Parc Cenedlaethol Eryri a chyrff cadwriaethol. **Cytunodd** y Cyngor eu bod yn barod i drafod cynlluniau ar gyfer dyfodol y fynwent gyda Menter Gymunedol Llanuwchllyn; y drafodaeth i barhau.

**2989 Cwmni Pum Plwy Penllyn** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr (Alwyn E Jones / Huw Antur ) a ddywedodd fod y gweithgarwch yn parhau.

**2990 Cynllunio:** Ystyriwyd ceisiadau

i. **NP5/71/375A** Tynnu simdde a gosod ffenestri to, Glynllifon, Llanuwchllyn. LL23 7TW - Cymeradwyo

ii. **NP5/71/L322A** Adeiladu estyniad deulawr, Glan Aber, Llanuwchllyn. LL23 7TY - Cymeradwyo

iii. **NP5/71/505** Gosod tŵr dellt 40 metr o uchder sy'n cynnal 3 antena, 2 dysgl 0.6m, 1 cabinet offer & 1 cabinet Tir yn Goedwig Llanuwchllyn, Llanuwchllyn - Cymeradwyo

iv. **NP5/71/53D T**rosi adeilad allanol i greu aneces i'r tŷ presennol Ty'n-y-Llechwedd, Parc. LL23 7YN - Manylion Ychwanegol – gadawyd ar y bwrdd gan fod y Cyngor eisoes wedi ymateb I'r cais hwn.

**2991 Gohebiaeth: Derbyniwyd**

i. Parc Cenedlaethol Eryri: Strategaeth Hamdden (drafft) er gwybodaeth – bydd y Grŵp Ardal yn ei drafod.
ii. Cyngor Gwynedd: gwybodaeth am ail adeiladu stepiau llwybr 17.
iii. Comisiynydd Pobl Hyn: anogwyd aelodau i ymateb i arolwg gwasanaeth meddygon teulu.
iv. Un Llais Cymru : Fideo a gwybodaeth am "Cymru Can" strategaeth 7 mlynedd ar gyfer gwell heddiw ac yfory yng Nghymru.
v. Un Llais Cymru: Hyfforddiant sydd ar gael Tachwedd/ Rhagfyr.
vi. Un Llais Cymru – Enwebiadau ar gyfer gwobrau.
vii. Llywodraeth Cymru: Canllaw ar reoli Asbestos mewn adeiladau cyhoeddus.
viii. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar Strategaeth Diogelwch Ffyrdd ( ar agor tan 31/1/24).

**2992 Materion lleol y Cynghorwyr:** Nodwyd problemau dwr a llanast yn lloches bws y Lôn sy'n gwneud ei ddefnyddio yn amhosib. Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans y byddai'n tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at y dail, y llanast a'r draen, ac y byddai yn holi am gyllid i godi'r llawr yng nghefn y lloches.

**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 9/1/24 am 8.00pm yn y Neuadd Bentref.